monmouthshire
sir fynwy

Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 21 Gorffennaf 2021

## Hysbysiad o gyfarfod

# Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf

## Dydd Iau, 29ain Gorffennaf, 2021 at 10.00 am, Neuadd y Sir, Brynbuga – Cyfarfod o Bell

*Nodwch y cynhelir rhag-gyfarfod 30 munud cyn dechrau'r cyfarfod ar gyfer aelodau'r pwyllgor*

# AGENDA

| Rhif yr Eitem | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| **RHAN A: MATERION CRAFFU A THROSEDD AC ANHREFN**<br><br>Dim materion I'w trafod. | | |
| | | |
| **RHAN B – PWLLGOR DETHOL CYMUNEDAU CRYF** | | |
| **1.** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| **2.** | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| **3.** | **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**<br><br>**Canllawiau ~ Fforwm Agored Cyhoeddus y Pwyllgor Dethol**<br><br>Mae ein cyfarfodydd Pwyllgor Dethol yn cael eu ffrydio'n fyw a bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar dudalen gyfarfod gwefan Cyngor Sir Fynwy<br><br>Os hoffech i rannu eich barn ar unrhyw gynigion sy'n cael eu trafod gan Bwyllgorau Dethol, gallwch gyflwyno eich sylwadau drwy ddefnyddio'r ffurflen hon<br><br>• Rhannwch eich barn drwy lanlwytho ffeil fideo neu sain (uchafswm o 4 munud) neu os yn well gennych;<br>• Cyflwynwch gynrychiolaeth ysgrifenedig (drwy Microsoft Word, uchafswm o 500 gair)<br><br>Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer cyfrif Fy Sir Fynwy er mwyn | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyflwyno'r ymateb neu ddefnyddio eich manylion mewngofnodi os ydych wedi cofrestru o'r blaen.<br><br>Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cyngor yw 5pm dri diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod.<br><br>Os bydd y sylwadau a dderbynnir yn fwy na 30 munud, bydd detholiad o'r rhain, yn seiliedig ar thema, yn cael eu rhannu yng nghyfarfod y Pwyllgor Dethol. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir ar gael i gynghorwyr cyn y cyfarfod.<br><br>Os hoffech awgrymu pynciau i un o'n Pwyllgorau Dethol graffu arnynt yn y dyfodol, gwnewch hynny drwy e-bostio Scrutiny@monmouthshire.gov.uk | |
| **4.** | **Adroddiadau Perfformiad**<br><br>Adroddiad ar y perfformiad ar y 5 nod. | 1 - 20 |
| **5.** | **Monitro'r Gyllideb**<br><br>Craffu ar yr adroddiadau Craffu Refeniw a Chyfalaf 2020-2021 | 21 - 88 |
| **6.** | **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol** | 89 - 98 |
| **7.** | **Rhestr weithredu** | |
| **8.** | **Blaenraglen Gwaith Cymunedau Cryf** | 99 - 100 |
| **9.** | **Blaenraglen Gwaith y Cabinet a'r Cyngor** | 101 - 118 |
| **10.** | **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf** | |

**Paul Matthews**

**Prif Weithredwr**

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL
CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL A GANLYN:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorwyr Sirol: | P. Clarke |
| | A. Easson |
| | C.Edwards |
| | L. Guppy |
| | V. Smith |
| | J.Treharne |
| | A. Webb |
| | S. Woodhouse |
| | R. Harris |

## Gwybodaeth I'r Cyhoedd

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg** Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

### Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni

**Neb yn cael ei adael ar ôl**

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

**Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan**

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

**Ein sir yn ffynnu**

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

### Ein blaenoriaethau

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol

### Ein gwerthoedd

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.

**Canllawiau Pwyllgorau Craffu Sir Fynwy**

<table>
<tr><th colspan="2">Rôl y Rhag-gyfarfod</th></tr>
<tr><td colspan="2">1. Pam mae'r Pwyllgor yn craffu ar hyn? (cefndir, materion allweddol)<br>2. Beth yw rôl y Pwyllgor a pha ganlyniad y mae Aelodau am eu cyflawni?<br>3. A oes digon o wybodaeth i gyflawni hyn? Os na, pwy allai ddarparu hyn?<br>- Cytuno ar y drefn holi a pha Aelodau fydd yn arwain<br>- Cytuno ar gwestiynau i swyddogion a chwestiynau i'r Aelod Cabinet</td></tr>
<tr><th colspan="2">Cwestiynau ar gyfer y Cyfarfod</th></tr>
<tr><td><u>Craffu ar Berfformiad</u><br><br>1. Sut mae perfformiad yn cymharu â blynyddoedd blaenorol? A yw'n well neu'n waeth? Pam?<br><br>2. Sut mae perfformiad yn cymharu â pherfformiad cynghorau eraill/darparwyr gwasanaethau eraill? A yw'n well neu'n waeth? Pam?<br><br>3. Sut mae perfformiad yn cymharu â thargedau penodol? A yw'n well neu'n waeth? Pam?<br><br>4. Sut y pennwyd targedau perfformiad? Ydyn nhw'n ddigon heriol/realistig?<br><br>5. Sut mae defnyddwyr gwasanaeth/y cyhoedd/partneriaid yn gweld perfformiad y gwasanaeth?<br><br>6. A fu unrhyw archwiliadau ac arolygiadau diweddar? Beth oedd y canfyddiadau?<br><br>7. Sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol?<br><br>8. A yw'r gwelliant/dirywiad o ran perfformiad yn gysylltiedig â chynnydd/gostyngiad mewn adnoddau? Pa gapasiti sydd i wella?</td><td><u>Craffu ar Bolisïau</u><br><br>1. Ar bwy mae'r polisi'n effeithio ~ yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol? Pwy fydd yn elwa fwyaf/lleiaf?<br><br>2. Beth yw barn defnyddwyr gwasanaeth/rhanddeiliaid? A ydynt yn credu y bydd yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir?<br><br>3. Beth yw barn y gymuned gyfan - safbwynt y 'trethdalwr'?<br><br>4. Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i ymgynghori â rhanddeiliaid? A wnaeth y broses alluogi pawb sydd â buddiant i ddweud eu dweud?<br><br>5. Pa arferion a dewisiadau a ystyriwyd wrth ddatblygu/adolygu'r polisi hwn? Pa dystiolaeth sydd ar gael i lywio'r hyn sy'n gweithio?<br><br>6. A yw'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n hamcanion corfforaethol, fel y'u diffinnir yn ein cynllun corfforaethol?<br><br>7. A ystyriwyd yr holl oblygiadau datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a diogelu perthnasol? Er enghraifft, beth yw'r gweithdrefnau y mae angen eu rhoi ar waith i amddiffyn plant?<br><br>8. Faint fydd y gost hon i'w gweithredu a pha ffynhonnell ariannu sydd wedi'i nodi?<br><br>9. Sut bydd perfformiad y polisi'n cael ei fesur a'r effaith yn cael ei gwerthuso.</td></tr>
<tr><th colspan="2">Cwestiynau i'r Pwyllgor, i orffen ...</th></tr>
<tr><td colspan="2">A oes gennym y wybodaeth angenrheidiol i ffurfio casgliadau/gwneud argymhellion i'r weithrediaeth, y Cyngor, partneriaid eraill? Os nac oes, a oes angen i ni:<br>(i) Ymchwilio i'r mater yn fanylach?<br>(ii) Cael rhagor o wybodaeth oddi wrth dystion eraill – Aelod Gweithredol, arbenigwr annibynnol, aelodau o'r gymuned leol, defnyddwyr gwasanaethau, cyrff rheoleiddio ...<br>(iii) Cytuno ar gamau pellach i'w cymryd o fewn amserlen/adroddiad monitro yn y dyfodol...</td></tr>
</table>